

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 25ain Mehefin, 2018.**

**PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), , , Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin  
Cyng. Michael Rayner, Cyng. John Owen, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Alun Morris, Cyng Dylan Jones , Cyng. Arwel Ll. Jones

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 21ain, Mai , 2018.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019**

Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth fod llythyr ar ei ffordd ar gyfer cais ariannol gan y Pwyllgor Apêl Llanddaged a Maenan.. Trafodwyd y cais a phenderfynwyd a phasiwyd drwy godi dwylo i roi rhodd o £500 o bunnoedd tuag at yr Apêl.

**CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Y clerck i gysylltu gyda chontractwyr lleol am bris i atgyweirio'r wal ym maes parcio Cegin Wen ond heb dderbyn unrhyw ymateb gan y contractwyr. Awgrymwyd gosod tap o gwmpas y darnau peryglus yn wal o gwmpas y maes parcio.

**PONT Y GARTH, MAENAN**

Cafwyd diweddariad gan Cyng. Austin Roberts ar y gwaith atgyweirio Y Bont ym Mhont y Garth, Maenan. Bydd yr arwyddion yn cael ei gosod yn y dyfodol agos a bydd y Cyngor yn penderfynu faint i ledu'r ffordd o gwmpas y bont .

**CYLLID**

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19.

**CYNLLUNIO:**

Cais rhif 0/45246 – Messers DS,CM & CH Edwards – codi adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Blaenorol), Pen y Bryn Farm, Allt Goch, Llanddaged, Conwy LL26 0UB

Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad

**CYNNAL A CHADW**

- 1) Twll yn ffordd wrth Glasfryn, Ffordd Fron Francis, Llanddaged.
- 2) Tyllau yn y ffordd Efail Uchaf, Llanddaged.
- 3) Gwrychoedd ar ffordd Trwyn Swch wedi cael eu torri yn flêr iawn.
- 4) Angen llenwi tyllau ffordd Pant Llin i Llidiart y Mynydd, Llanddaged.
- 5) Tyllau yn y ffordd wrth Pencraig i Gefn Llech, Maenan.
- 6) Twll yn y ffordd islaw Tyddyn Frencher.
- 7) Twll yn y ffordd rhwng Belmont a Sarn Ddu, Llanddaged.

- 8) Angen torri gwair yn cael chwarae Maenan.
- 9) Angen strimio maes parcio Cadair Ifan Goch Maenan a maes parcio Cegin Wen, Llanddoded.